

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD NÔS LUN 17/2/2014
MINUTES OF THE MEETING HELD ON MONDAY EVENING 17/2/2014

Presennol / Present

Mr Elfed Jones (Cadeirydd / *Chair*), Mr Tony Hughes (Is-Gadeirydd / *Vice Chair*), Mrs M Hughes, Mrs C Davies, Mrs R Griffiths, Mr D Livingstone, Mr J Longman, Mr R Hughes, Mr D Owens, Mr D Owen

Cyng. / *Cllr.* A. M. Jones, Cyng. / *Cllr.* R. O. Jones, Cyng. / *Cllr.* W Hughes

Mrs H. M. Beck (Clerc / *Clerk*)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies

- Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
The Chair welcomed everyone to the meeting.
- Derbynydd ymddiheuriadau gan Mrs J Dobson.
Apologies were received from Mrs J Dobson.

1.1 Cyflwyno a chroesawu yr Aelod Newydd / Introduce and welcome the new member

- Estynodd y Cadeirydd groeso arbennig i'r aelod Cyngor Cymuned newydd Mr D Owen ar ôl ei lwyddiant yn yr etholiad lleol ac hefyd i'r clerc dros dro Mrs H. M. Beck am fynychu'r cyfarfod. Ategodd y Cynghorydd W. Hughes a'r Cynghorydd A. M. Jones y croeso.
The Chair extended a special welcome to the new Community Councillor Mr D Owen after his success at the local election and to the temporary clerk Mrs H. M. Beck for attending the meeting. Councillor W Hughes and Councillor A. M. Jones seconded the welcome.

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

- Fe wnaeth y Cynghorydd R. O. Jones ac y Cynghorydd A. M. Jones ymddiheuro am eu bod yn gorfod gadael y cyfarfod yn gynnar i fynychu ymroddiadau arall.
Councillor R. O. Jones and Councillor A. M. Jones apologised that they would have to leave the meeting early to attend other commitments.
- Datganodd y Cynghorydd W Hughes ac y Cynghorydd R. O. Jones ddiddordeb yn eitem 9 a ni fyddent yn cymeryd rhan yn y drafodaeth.
Councillor W Hughes and Councillor R. O. Jones declared an interest in item 9 and will not take part in the discussion.

3. Materion Pentrefol / Village Matters

- Tir ger Gongl y Rhedyn – Dim mwy o wybodaeth. Datgelodd y Cynghorydd W Hughes fod y mater yn law y Cyngor Sir. Gan fod y ffiniau yn destun dadl, mi fydd rhaid i cyfarfod cael ei drefnu gyda Cynghorwyr yn ymweld a'r safle i drafod y mater a mi fydd y Cyngor Cymuned mewn safle gwell i ymateb wedyn.

Gweithred – Trefnu cyfarfod.

Land by Gongl y Rhedyn – No further information. Councillor W Hughes stated that the matter is in the hands of the Isle of Anglesey County Council. As the boundary is in dispute, a meeting will have to be scheduled for Councillors to visit the site and the Community Council will be in a better position to respond to the matter.

Action – Arrange a meeting.

4. Sefyllfa – swydd y cleric / *Situation re post of cleric*

- Eglurodd Mrs M Hughes fod y cyn glerc Elizabeth Jones wedi derbyn 3 ymholiad ynglyn a'r swydd. Trafodwyd a penderfynwyd cynnal cyfweiliadau i'r ymgeiswyr.

Gweithred – Cysylltu a'r ymgeiswyr i drefnu cyfweiliadau.

Mrs M Hughes explained that the previous cleric Elizabeth Jones had received 3 enquiries regarding the post. It was discussed and decided to hold interview for the candidates.

Action – Contact the candidates to arrange interviews.

5. Cofnodion 20.1.14 / *Minutes of the Meeting 20.1.14*

- Derbynwyd cofnodion cyfarfod 20/1/2014 fel rhai cywir. Cynigwyd gan Mrs M Hughes ac eilwyd gan Mr T Hughes.

The minutes were accepted as a true record of the meeting on 20/1/2014. Mrs M Hughes proposed and Mr T Hughes seconded.

5.1. Materion yn codi o'r Cofnodion / *Matters arising from the Minutes*

- Eitem 9 (Cynrychiolydd ar Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cemaes) – Eglurodd Mrs C Davies ei bod wedi rhoi ei henw ymlaen i gynrychioli ar y Corff Llywodraethol a datganodd fod Mrs M Hughes a diddordeb hefyd.

Item 9 (Representative on the Governing Body of Ysgol Gynradd Cemaes) – Mrs C Davies explained that she had put her name forward to be a representative on the Governing Body, Mrs M Hughes expressed an interest also.

6. Adroddiadau Pentrefol / *Village Reports*

- Draenio Mynwent y Rhyd – Cynghorydd W Hughes yn egluro nad oedd Mr M Barton yn ymwybodol fod Mr Thomas a'r Asiantaeth Amgylchedd wedi bod yn ymweld a'r safle.

Drainage Problems in Rhyd Cemetary – Councillor W Hughes explained that Mr M Barton was not aware that Mr Thomas or the Environment Agency had visited the site.

- Cae Chwarae Tregle – Cytunwyd i ymestyn y lês ar gae chwarae Tregle am 25 mlynedd arall yn cychwyn o mis Gorffennaf 2015. Er mwyn cael arian cronfa ar gyfer y cyfarpar chwarae a'r cynhwysydd, mae angen gwneud mwy o ymchwil a chael gwybodaeth pellach gyda'r tir a'r ceblau dan dir. Cafwyd ei drafod a penderfynwyd trefnu cyfarfod rhwng y Cynghorydd W Hughes, Mr D Owens, Mr E Jones a Mr Gareth Jones, Prif Swyddog Eiddo, Cyngor Sir Ynys Môn.

Gweithred – Ysgrifennu llythyr i Mr Gareth Jones i drefnu cyfarfod.

Tregle Playing Field – It was agreed to extend the lease on the Tregle playing fields for a further 25 years commencing July 2015. Further research and information is required regarding the land and the underground cables with regard to applying for grants for play equipment / container. It was discussed and decided to arrange a meeting between Councillor W Hughes, Mr D Owens, Mr E Jones and Mr Gareth Jones, Senior Property Officer, Isle of Anglesey County Council.

Action – Write a letter to Mr Gareth Jones to arrange a meeting.

- Cae Chwarae Cemaes - Ysgrifennodd Mrs Elizabeth Jones i'r Adran Iechyd a Diogelwch ac wedi derbyn tystysgrif gyda'r lein zip. Trafodwyd am y bryderon megis pwy fuasai yn gyfrifol am edrych ar y cyfarpar yn ddyddiol a rhaid gwneud ymholiadau pellach gyda cyrsiau hyfforddiant i unigolyn gael cyfrifoldeb lechyd a Diogelwch gyda'r lein zip. Gofynwyd a fuasai hyn yn swydd a thâl a pwy fuasai yn gyfrifol am y dalu.

Gweithred – Mrs R Griffiths i wneud ymholiadau pellach ar gyrsiau hyfforddi gyda ROSPA.

Cemaes Playing Field – Mrs Elizabeth Jones has written to the Health and Safety Department and is in receipt of a certificate for the zip wire. The issue of who would be responsible for checking the equipment daily was discussed and further enquiries need to be made on available courses to train an individual to have Health and Safety responsibility for the zip wire. The Community Councillors asked would this be a paid appointment and who would be responsible for payment.

Action – Mrs R Griffiths to make further enquiries with ROSPA on training courses.

- Toiledau Maes Parcio y Traeth – Gan nad oes datblygiadau ymhellach ar gael, mi fydd y Cadeirydd yn eostio y Cyngorwyr Cymuned gyda manylion yn y dyfodol. Mae'r Cyngor Cymuned yn barod i archebu y toiledau symudol sydd â côst o £200 yr wythnos. Roedd gohiriad gyda'r toiledau flwyddyn dwythaf a cytunwyd i'r Cadeirydd gysylltu Cyngor Sir Ynys Môn ynglyn a'r mater yma.

Gweithred – Y Cadeirydd i gysylltu ynglyn a'r toiledau symudol.

Toilets Beach Car Park – As there are no other further developments, the Chair will email the Community Councillors in due course with further details. The Community Council are in a position to order the portable toilets at a cost of £200 per week. There was a delay last year in deployment and it was agreed for the Chair to contact the Isle of Anglesey County Council regarding this issue.

Action – The Chair to contact regarding the portable toilets.

- Lês Maes Parcio Lôn Glascoed – Fe wnaeth y Cyngorwyr Cymuned drafod opsiynau gwahanol megis prynu y maes parcio ar gyfer y gymuned, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno mewn egwyddor. Yr opsiwn arall yw i Cyngor Sir Ynys Môn osod peiriant arddangos a thalu. Pryder gyda prynu y maes parcio oedd materion yswiriant, cynnal a chadw a pwy fydd yn gyfrifol. Gallai cael effaith ar cynyddiad yn y presept hefyd.

Gweithred – Ysgrifennu llythyr i'r Adran Eiddo gyda côst pryniant.

Lôn Glascoed Car Park Lease – The Community Councillors discussed other options such as buying the car park for the community, the Isle of Anglesey County Council has agreed in principle. The other option is allowing the Isle of Anglesey County Council to install a pay and display. The concerns of buying the car park was of insurance and maintenance issues and who would be responsible. There could also be an effect on having to increase the precept.

Action – Letter to Property Department regarding cost of purchase.

- Rwbél ar tir ger Gongl y Rhedyn – Mae'r tir yn parhau i fod mewn dadl. Mr I Milner o'r Adran Gynllunio wedi ymweld a;r safle a Mae Mrs Pauline Roberts yn ymwybodaol ei fod yn gorfod clirio y tir ac ail-gychwyn.

Rubble left on the land by Gongl y Rhedyn – The land is still in dispute with the Isle of Anglesey County Council. Mr I Milner from the Planning Department has visited the site and Mrs Pauline Roberts has been told to clear the land and re-start.

7. Cynlluniau sydd ar y gweill gan y gwahanol Gwmnïau Melinau Gwynt / Proposed Plans presented by the various Windmill Companies

- Ar ran Cyngor Tref Amlwch, eglurodd Mrs M Hughes bod gwahoddiad i Gynghorwyr Cymuned Llanbadrig fynychu cyfarfod gyda Euros Energy pan dderbynir ddyddiadau yn ôl gan y cwmni er mwyn trefnu cyfarfod. Pawb yn hapus gyda'r trefniadau ag i fynychu y cyfarfod.
On behalf of Amlwch Town Council, Mrs M Hughes explained that there is an invitation for Llanbadrig Community Councillors to attend a meeting with Euros Energy once she has received dates from the company in order to arrange a meeting. Everyone happy with arrangement and to attend the meeting.

8. Materion Cyllid / Financial Matters

- Taliadau / Payments
 - Play Quest (ailosod cebl a 'stop-spring' / *replace cable & 'stop-spring'*) - **£666.00.**
 - Steel Fabrication & Engineering Ltd (atgywirio swing / *repair swing*) - **£120.00.**
 - Eira Fôn Parry (cyfieithydd / *translator*) - **£81.25.**
 - Sharon Williams (costau clerc / *clerk costs*) - **£303.00.**
- Mi fydd y rhaglen CYSGLIAD yn cael ei brynu gan Elizabeth Jones £40.00 / *The CYSGLIAD programme will be bought by Elizabeth Jones £40.00.*
 - Aelodaeth Un Llais Cymru / *One Voice Wales membership* - **£204.00.**
- Sefyllfa Cyllid – Dim adroddiad cyllid ar gael hyd yn hyn.
Financial Situation – No financial report to be had as of yet.

9. Ceisiadau Cynllunio / *Planning applications*

- 9 Sea View Terrace, Cemaes (20C294) – Cais ôl weithredol ar gyfer dymchwel y ports Presennol ynghyd a chodi ports newydd (Cynllun Diwygiedig). Dim sylwadau.
9 Sea View Terrace, Cemaes (20C294) – Retrospective application for the demolition of the existing porch together with the erection of a new porch. No comments.
- Llanlleiana, Cemaes (20C241E) - Cais llawn i newid defnydd yr adeilad adfail i uned gwyliau, dymchwel dau adeilad allanol a chodi dau uned gwyliau hunain gynhaliol, dymchwel trydydd adeilad allanol ynghyd a chodi adeilad gyda cyfleusterau hamdden ar gyfer preswylwyr y safle. Cytunwyd fod y cais yn effaith da ar ddenu twristiaeth ac adnewyddu hen adeiladau yn yr ardal.
Llanlleiana, Cemaes (20C241E) – Full application for the conversion of redundant building into a holiday let, demolition of two outbuildings and erection of two self contained holiday units, the demolition of third outbuilding and the erection of a building with leisure facilities. It was agreed that the application had a positive effect on tourism and renewing old buildings in the area.

10. Gohebiaeth / *Correspondence*

- Derbynwyd llythyr gan y Warden Cymunedol Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ynglyn a cyfarfod aelodau'r Cyngor Cymuned i drafod unrhyw bosibilrwydd o greu cyfleodd gwirfoddoli ar dir tiffeddianwyr yn yr ardal.
Gweithred – Y Clerc i gysylltu am dyddiad hwylus i'r Warden Gymunedol.
A letter was received from the Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) Community Warden to discuss with Community Council members about creating possible volunteering opportunities with local landowners.
Action – The Clerk to contact the Community Warden for possible dates.
- Derbynwyd llythyr a llyfryn gan Cyngor Sir Ynys Môn ynglyn ag adborth o'r ymgynghoriad Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn.
A letter and booklet was received from the Isle of Anglesey County Council regarding feedback on the Adult Social Care consultation.
- Derbynwyd ebôst gan Mrs S Wain, Cemaes-in-Bloom ynglyn ag arian cronfa i wella y llwybr coed ac yn holi ar bwy l gysylltu gyda caniatad a cyngor. Awgrymodd y Cynghorydd A. M. Jones y dylai Cemaes-in-Bloom ysgrifennu i Magnox gan fod arian cronfa o £1,000 ar gael.
Gweithred – Hysbysu Mrs S Wain o'r gronfa arian Magnox.
An email was received from Mrs S Wain, Cemaes-in-Bloom with regards to grant funding to improve the woodland path and enquiring who should be contacted regarding permission or advice. Councillor A. M. Jones suggested that Cemaes-in-Bloom should write to Magnox for grant funding as there is £1,000 available.
Action – Inform Mrs S Wain of the Magnox grant funding.
- Derbynwyd wybodaeth gan Sefydliad Aren Cymru yn hysbysu y bydd y Taith Gerdded yn cael ei gynnal ar Ddydd Sul, Ebrill 17eg 2014.
Information was received from the Kidney Wales Foundation informing that the Walk for Life event will take place on Sunday, April 17th 2014.
- Derbynwyd llythyr gan Cyngor Sir Ynys Môn ynglyn a Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad l Aelodau Cyngor Tref a Chymuned. Trafodwyd a penderfynwyd disgwyl penodi clerc newydd cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater yma.
Gweithred – Y Clerc i yrru cofnodion o'r cyfarfod i Miss Lynne Ball CSYM.
A letter was received from the Isle of Anglesey County Council regarding Code of Conduct Training for Town and Community Council Members. It was discussed and decided to appoint a new clerk before making a final decision on this matter.
Action – The Clerk to send a copy of the minutes to Miss L Ball IOACC.

- Derbynwyd llythyr gan Cyngor Sir Ynys Môn ynglyn ag Ymgynghoriad Cyhoeddus Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa: Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol. Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o 9:00yb Chwefror 17eg hyd at 5:00yh Mawrth 31ain 2014.
A letter was received from the Isle of Anglesey County Council with regard to a Public Consultation New Nuclear Build at Wylfa; Supplementary Planning Guidance. The consultation period will run from 9:00am 17th February to 5pm March 31st 2014.
- Derbynwyd ebôst gan y Rhaglen Ynys Ynni Môn ynglyn a CoRWM – Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn hysbysu o gyfarfodydd agored drwy gydol y flwyddyn. Os oes diddordeb mynychu rhaid ebostio yr ysgrifennydd CoRWM@decc.gsi.gov.uk
An email was received from the Anglesey Energy Island Programme with regard to CoRWM – Committee on Radioactive Waste Management informing of scheduled open meetings throughout the year. If there is any interest of attending to contact the secretariat CoRWM@decc.gsi.gov.uk
- Derbynwyd ebôst gan Un Llais Cymru ynglyn a'r Cynhadledd Blynyddol / Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014. Gwahoddir Aelod Gynghorau I gyflwyno uchafswm o ddau gynnis i'w trafod ac iddynt gyrraedd Swyddfa Un Llais Cymru erbyn canolddydd 17eg Ebrill 2014.
An email was received from One Voice Wales with regard to Motions for the 2014 Annual Conference / AGM. Member councils are invited to propose a maximum of two motions for debate which must arrive at the One Voice Wales office no later than noon 17th April 2014.

11. Unrhyw fater arall / Any other business

- Torriadau Trydan Diweddar – Derbynwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd ynglyn a'r mater yma yn y cyfarfod diwethaf. Ail-drafodwyd a penderfynwyd gan mai seilwaith Scottish Power yd'r broblem, rhaid cysylltu â nhw yn uniongyrchol.
Gweithred – Gyrru llythyr i Scottish Power yn gofyn a fuasant yn mynychu cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.
Recent Electricity Power Cuts – During the last meeting, a letter was received from a member of the public regarding this matter. It was discussed and decided that, as it was a problem with Scottish Power's infrastructure, to contact with them directly.
Action – Send a letter to Scottish Power to ask if they can attend a meeting with the Community Council.
- Datganodd y Cynghorydd R. O. Jones ddiddordeb yn yr eitem yma a ni gymerodd rhan yn y drafodaeth. Mynegodd y Cynghorydd W Hughes ei siom gyda ymateb brys y gwasanaeth ambiwlans dros y penwythnos. Mi fynegodd pa mor dda oedd y paramedics unwaith y cyrrhaeddom y safle ac hefyd ar sut wnaeth y tîm rheoli ambiwlans ddelio gyda'r sefyllfa. Mae pryder mawr gyda sut mae'r gwasanaeth yn cael ei rheoli. Eglurodd y Cynghorydd A. M. Jones ei fod o a'r Cynghorydd W Hughes yn gweithio gyda'i gilydd ar y mater yma gan ei fod yn fater bwysig i'r ynys.
Councillor R. O. Jones declared an interest in this item and took no further part in the discussion. Councillor W Hughes expressed his disappointment in the poor response time of the ambulance service over the weekend. He did express how fantastic the paramedics were when they arrived at the scene and also how the ambulance control team handled the situation. He had grave concerns with the management of the service. Councillor A.M. Jones explained the he and Councillor W Hughes were working in conjunction on this matter as it is of great importance to the island.
- Gofynnodd Mr J Longman pryd oedd y Goleuadau Nadolig yn y Stryd yn mynd i gael ei tynnu i lawr. Y rheswm am yr oedi oedd oherwydd y tywydd drwg.
Mr J Longman asked whether the Christmas Lights in the High Street were going to be taken down. The delay was due to the bad weather.

- Hysbysodd Mr J Longman bod deiseb yn cael ei gasglu yn fflatiau Maes Cynfor ynglyn a problem gyda costau gwasanaeth a mi fydd y ddeiseb yn cael ei yrru i Cyngor Sir Ynys Mon.
Mr J Longman informed the Councillors that a petition was being collected in the Maes Cynfor flats with regards to a problem with service charge costs, the petition will be sent to the Isle of Anglesey County Council.
- Gofynnodd Mrs C Davies a oedd y sbwriel wrth y Neuadd Snŵcer wedi cael ei glirio. Yr ymateb oedd na hyd yn hyn.
Mrs C Davies asked if the rubbish had been cleared by the Snooker Hall. The response was no it had not.
- Caffi y traeth – Gofynnir a oedd posib aros am flwyddyn arall yn y caffi. Awgrymwyd iddynt ysgrifennu i'r Cyngor Cymuned ag ei roi ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf i'w drafod.
Beach Café – It was asked if they could stay on for another year. It was suggested they write to the Community Council and for it to be put on the agenda in the next meeting to be discussed.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30 y.h. / *The meeting closed at 8:30pm*

Arwyddwyd / *Signed*
Cadeirydd / *Chairperson*

Dyddiad / *Date*.....